# DDEDDF YW 'DEDDF CYFRAITH SY'N DEILLIO O'R UNDEB EWROPEAIDD (CYMRU) 2018

---

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR ADRANNAU'R DDEDDF

#### *Adran 6 – Heriau i gyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE sy'n codi o annilysrwydd offerynnau gan yr UE*

74. Mae pob darn o gyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE yn gysylltiedig mewn rhyw ffordd ag offeryn gan yr UE. Mae gan Lys Cyfiawnder yr UE awdurdodaeth dros unrhyw her i offeryn gan yr UE. Gellid herio offeryn gan yr UE ar sail diffyg cymhwysedd, torri gofyniad gweithdrefnol hanfodol, torri'r Cytuniadau neu unrhyw reol gyfreithiol sy'n ymwneud â'u cymhwyso neu gamddefnyddio pwerau[1]. Gallai her lwyddiannus i offeryn gan yr UE fwrw amheuaeth ar unrhyw ddarn o gyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE sy'n gysylltiedig â hynny. Mae adran 6(1) yn gosod sefyllfa ddiofyn nad yw penderfyniad gan Lys Cyfiawnder yr UE fod offeryn gan yr UE yn annilys yn creu hawl yn y gyfraith i herio unrhyw ddarn o gyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE. Nid yw hyn yn effeithio ar unrhyw her ar sail arall o ran cyfraith gyhoeddus.

75. Mae adran 6(2) yn darparu tri eithriad i'r sefyllfa ddiofyn. Y trydydd eithriad, ym mharagraff (c), yw p#er i Weinidogion Cymru ychwanegu eithriadau pellach. Gallai hyn gynnwys achosion pan fo Llys Cyfiawnder yr UE wedi penderfynu bod offeryn gan yr UE yn annilys ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae adran 6(3) yn gadarnhad bod y p#er yn adran 6(2)(c) yn cynnwys y p#er i ddarparu ar gyfer gwneud her yn erbyn awdurdod cyhoeddus domestig (ond nid un o Weinidogion y Goron – gan adlewyrchu'r terfynau ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ac yn benodol y cyfyngiad ym mharagraff 1(2) o Ran 2 o Atodlen 7 i DLlC 2006) yn lle un o sefydliadau'r UE.

---

**1** Erthygl 263 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd.